# CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: Tom Jones, 22, Endsleigh Road, Hen Golwyn. LL29 9DT Ffôn: 01492 515999 Sym: 07774 833523
e-bost: clerc@betwsdallanelian.org.uk

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YM MHAFILIWN CHWARAEON, BETWS YN RHOS YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, 9fed O IONAWR, 2023.**

**1. CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd GRIFFITHS pawb i'r cyfarfod.

**2. YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr John EVANS; Glenna HUMPHREY; D Gwyn JONES; Hefin WILLIAMS; Goronwy R. WILLIAMS; Gethin OWEN a John D Roberts a'r Cynghorwr Sir Ifor G WILLIAMS.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwr Bryn JONES.

**4. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Atgoffer yr aelodau eu bod i ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor LLOYD wedi dweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolau cynllunio a pholisïau.

a. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan unrhyw un.

**5. MUNUDAU**

Cytunwyd i gadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Dachwedd, 2022. (Cynnig y Cynghorydd Goronwy R WILLIAMS ac eilwyd gan y Cynghorydd John EVANS).

**6. MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**7. CYLLID**

a. Cafwyd Adroddiadau Misol am y cyfnod dod i ben 20fed o Dachwedd 2022 a'r 20fed o Rhagfyr 2022. Nododd yr aelodau y sefyllfa araiannol a'r adroddiadau banc fel a restrir isod:-
<u>TACHWEDD 2022</u>

| | | |
|---|---|---|
| (1) | Cyfrif Cymunedol | = £9,118.28 (Dwyn Ymlaen) |
| | Arian i Mewn | = £0.00 |
| | Arian Allan | = £5.40 (Costau Banc - DR) |
| | | = £55.80 (Aston Hughes – Gwasanaeth Cyflog – 200141) |

| | |
|---|---|
| | = £405.39 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | = £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO) |
| | = £270.00 (CCBC - Cost Etholiadau Lleol – 200147 |
| Heb ei Cyflwyno | = £37.00 (RBL – Torch x 2 ar gyfer Sul y Cofio – 200145) |
| Cyfrif Cymunedol | = £8,280.29 (Cludwyd Ymlaen) |
| (2) Cyfrif Busnes | = £5,553.67 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian Allan | = £0.00 |
| Arian i Mewn | = £0.00 |
| Cyfrif Busnes | = £5,553.67 (Cludwyd Ymlaen) |
| Cyfanswm | = £13,833.96 |

RHAGFYR

| | |
|---|---|
| (3) Cyfrif Cymunedol | = £8,280.29 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian i Mewn | = £2,666.00 (Praesept) |
| Arian Allan | = £5.80 (Costau Banc - DR) |
| | = £178.00 (David Roberts-Bwrdd Gwybodaeth Trofarth-200148) |
| | = £405.39 (Cyflog y Clerc – SO) |
| | = £101.40 (Taliad i'r HMRC – SO) |
| | = £109.80 (Noson Gyflwyno i'r ymddeoledig – 200149) |
| | = £37.00 (RBL – Torch x 2 ar gyfer Sul y Cofio – 200145) |
| | = £484.51 (Grant CBSC at Adnoddau Blodeuo Betws ayyb – 200150) |
| Heb ei Cyflwyno | = £40.00 (Cost Blynyddol ICO GDPR – 200151) |
| Cyfrif Cymunedol | = £9,624.39 (Cludwyd Ymlaen) |
| (4) Cyfrif Busnes | = £5,553.67 (Dwyn Ymlaen) |
| Arian Allan | = £0.00 |
| Arian i Mewn | = £5.85 |
| Cyfrif Busnes | = £5,559.52 (Cludwyd Ymlaen) |
| Cyfanswm | = £15,183.91 |

Cytunodd pawb a'r adroddiadau yma.

b. Ynglun a bancio ar-lein mae'r Clerc wedi talu'r ddyleb gynta a'r lein felly gobeithier y bydd rhan fwyaf o'r trosglwyddiadau ariannol yn cymeryd lle yn yr un dull yn y dyfodol. Bydd rhain yn cael ei dynodi fel TAL/OLP ar yr adroddiadau misol.

**8. GOHEBIAETH**

**i. Derbynwyd**

a. Ceisiadau am grantiau lleol iw cynnwys ym mhraesept y flwyddyn nesaf

**ii. Anfonwyd**

b. Sylwadau ar geisiadau cynllunio i Adran Gynllunio CBSC

c. Llythyrau ac ebyst i'r Cynghorwyr yn dilyn negesuon, llythyrau ac ebyst yn dod i law.

**9. GRANTIAU**

**i. Ceisiadau i'r Cyngor I'w cynnwys yn y Praesept**

a. Ty Gobaith

b. Henoed Llanelian

c. Mynwent Trofarth

d. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru

e. Urdd Gobaith Cymru

f. Eisteddfod Calan Mai

**ii. Caisiadau gan y Cyngor**

a. Lleoedd LLeol ar Gyfer Natur - tuag at blannu blodau gwyllt ayyb yn ymyl Pafiliwn y cae chwarae yn Betws yn Rhos wedi cael ei llenwi a'i gyrru i mewn – Bu hwn yn llwyddianus a disgwylir y pecyn yng ngwanwyn 2023.

b. Ateb o Adran Economi a Diwylliant CBCS ynglun a grant i'r Cae Chwarae. Daeth aelod o adran ERF y Cyngor Sir I edrych ar y cae chwarae a dywedodd y byddai nhw yn adnewyddu ac yn gwneud gwaith cynnal a chadw ar yr offer oedd yno yn barod. Byddai rhaid i unrhyw offer newydd gael ei dalu drwy grant leol neu lotri. Bydd rhaid i hyn gael ei wneud gan grwp lleol gyda cymorth gan y Cyngor Cymuned. Edrych i mewn i grant gan Cymru Cynhaliol.

**10. CYNLLUNIO - http://www.conwy.gov.uk/planningexplorer**

a. Cyfeirnod: 0/50307 Ymgeisydd: Gareth Williams
Cynllun: Ail-greu hen drac amaethyddol hanesyddol i ddarparu llwybr mynediad diogel ar draws y tir. Safle: Bethgeth Cill Llidiart Road Betws Yn Rhos LL22 8AG
Deodd dim gwrthwynebiad i'r cais yma.

b. Nodiadau ddim ar gael yn Gymraeg – Eglurhad o'r apel i'r cais.
Subject**:** CAS-01878-N6V2D3, LPA ref - 0/48167. Land adjacent to Bryn Rhoden, Dolwen Road, Old Conwy, Colwyn Bay, Conwy, LL29 8UQ
Aros i weld be fydd canlyniad yr archwiliad.

c. Cyfeirnod: 0/50102 Ymgeisydd: Mr Max Jones
Cynllun: Creu mynedfa amaethyddol newydd yn lle'r un bresennol.

Safle: Land adjacent to Bryn Rodyn Dolwen Road Old Colwyn Colwyn Bay LL29 8UQ

Y cais wedi ei gymeradwyo ar y 28/11/22 gyda amodau e.e. gatiau rhag stoc

Yn amlwg fod gwrthwynebiad y Cyngor Cymuned ddim wedi ei ystyried gan fod y Cyngor Sir wedi cymeradwyo y cais.

d. Yr ateb yma wedi dod yn Saesneg yn unig: Eglurhad i'r archwiliad i gais cynllunio yn Bethgeth. Subject: FW: ENF/2021/4730 - Bethgeth, Betws yn Rhos.
Disgwyl canlyniad archwiliad y Cyngor Sir.

e. Cyfeirnod: 0/50327 Ymgeisydd: Springtime Lodges Ltd Cynllun: Newid tri chaban gwyliau presennol am rai newydd a chynnig dau gaban ychwanegol (cyfanswm o bum caban gwyliau), gan gynnwys tirlunio cysylltiedig a maes parcio Safle: Alpine Lodge Rhyd Y Foel Road Rhyd Y Foel Betws Yn Rhos LL22 8EA

Dim gwrthwynebiad mewn egwyddor cyn belled y bydd y mynediad i'w weld o'r ddwy ochor i'r ffordd a bod digon o fan parcio yno fel na bydd ceir yn parcio ar y ffordd.

**11. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**

Mae'r Clerc yn aros am ganlyniad yr Archwiliad Allanol (Archwiliad Cymru). Yn dilyn galwadau ffon mae'n amlwg y bu i dipyn o broblem fod gyda Archwiliad Cymru y flwyddyn diwethaf, a mae hyn wedi achosi oedi hir i rai archwiliadau.

**12. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD**

a. Mae tebygrwydd y bydd diffyg yng nghyllideb y Cyngor Sir y flwyddyn hon a fydd yn gwrthdrawo ar ei hadnoddau yn 2023. Bydd hyn yn ychwanegol i'r gostyngiadau fydd angen yn dilyn yr enciliad ariannol gwledig a byd-eang presennol. Mae Cyngor Conwy wrthi yn paratoi y gyllideb am 2024.
b. Problemau ar ffordd B5381 wrth Bryn Pin gyda dwr yn sefyll. Gobeithir i hyn gael ei ddatrus yn fuan.
c. Mae achosion o adael ysbwriel ar ochr ffyrdd yr ardal yn dal yn broblem. Rhaid ceisio cael pawb i gymeryd manylion unrhyw un sydd yn cael ei gweld yn gadael ysbwriel yn ein manau agored..

**13. CYFARPAR AR GYFER GWNEUD Y CYFARFODYDD YN RHITHIOL**

Er mwyn cynwysiedigaeth, mae angen edrych ar ffordd o alluogi aelodau o'r Cyngor a'r cyhoedd gymeryd rhan yn y cyfarfodydd yn rhithiol pe baent am unrhyw reswm yn methu bod yno mewn person. 'Rydym nawr wedi cael dyfynbris rhesymol. Gan fod y cyfarfod hwn yn y Pafiliwn Chwaraeon penderfynwyd cael cyfarfodydd y Cyngor yn yma ohyn ymlaen bob yn ail a Llanelian. Penderfynwyd hefyd i archebu y cyfarpar angenrheidiol unwaith y bydd y modd i gael WiFi i'r Pafiliwn wedi ei ddatrys.

**14. CYNNAL A CHADW ADNODDAU ARDAL Y CYNGOR CYMUNEDOL**

a. Arwydd ffordd ar gornel Capel Bach Sion – mae cost ail wneud arwydd o'r un defnydd yn ormodol felly angen gofyn I'r cyngor osod arwydd newydd.

b. Cyfarpar chwaraeon i blant iau ar gae chwarae Betws yn Rhos – angen aros i Gyngor Conwy wneud gwaith cynnal a chadw ar y cae chwarae ac yn y cyfamser edrych am grant i gael mwy o offer.

c. Gordyfiant ar lonydd gwyrdd a llwybrau lleol – angen hel gwybodaeth am bob man ble mae angen gwaith cynnal a chadw er mwyn ei yrru i Gyngor Conwy..

d. Bwrdd gwybodaeth cymunedol Trofarth – Mae hwn yn awr wedi ei adnewyddu a mae gwybodaeth yn cael ei arddangos ynddo.

**15. FFERM WYNT ALLTRAETH AWEL Y MOR & GWYNT Y MOR**

Mae'r Cyngor yn awr wedi ei cofrestru gyda Cwmni Awel y Mor fel cymdeithas sydd a diddordeb yn y broject er mwyn cael gwybodaeth reolaidd am y cynlluniau. Byddwn yn cadw golwg ar y

datblygiadau. Mae prosiect arall ar y gweill yn awr hefyd sef Gwynt y Mor. Mae'n bosib y bydd y ceblau o'r brosiect hon yn cael ei gyrru drwy ranau o ardal Betws yn Rhos.

**16. YMGYRCH LEOL I REOLI FFERMYDD GWYNT**

Mae posteri yn awr ar gael wrth fynd ar www.moelfre2022@gmail.com. Fe ddisgwyliwn tan y bydd yna gais am gynllunio yn ein hardal cyn symud hyn ymlaen. Bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Neuadd Bentref Betws yn Rhos am 7.30yh ar y 30ain o Ionawr.

**17. LLWYBR NATUR**

Cynigwyd edrych ar yr hen ffordd porthmon ac hefyd yr hen ffordd rufeinig fel posibilrwydd o wneud llwybyr natur yn y fro. Mae angen cael cymorth gan rhywun sydd yn adnabod y llwybrau cyhoeddus lleol ac hefyd yn gwybod ar pa fath o fywyd natur a ddisgwylir iw weld ar hyd y llwybrau. Cynigwyd hysbysu ar y bordiau gwybodaeth, ar daflen we yr ardal ac hefyd gyda'r gymdeithas gerdded yn Y Gadlas. Does dim ymateb wedi bod i'r syniad yma hyd yn hyn. .

**18. CANOLFAN GYMUNEDOL LLANELIAN YN RHOS**

Mae yr eitem yma ar yr agenda er mwyn cadw cofnod o sut mae y gwaith yn dod yn ei flae, ac er mwyn rhoi cefnogaeth pan y bydd angen.

**19. Y GADLAS**

Bydd unrhyw fater o ddiddordeb gan y Cyngor yn cael ei roi yn y rhifyn nesaf.

**20. PRAESEPT 2023/2024**

Trafodwyd maint a swm y praespt tuag at y flwyddyn 2023-2024 a daethpwyd i benderfyniad o wneud cais am £9,000. Mae i'r Clerc roi y cais at ei gilydd a'i roi o flaen Cyngor Conwy cyn diwedd y mis.

**21. CYSIDRO AELOD YCHWANEGOL I'R CYNGOR**

Mae angen cysidro edrych am aelod newydd i'r Cyngor i lenwi'r bwlch sydd yn bodoli. Pawb i wneud ymholiadau i weld os oes unrhyw un a diddordeb.

**22. UNRHYW FATER ARALL**

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe ddaeth y cyfarfod i ben am 9.30y.h.

CADEIRYDD: …………………………… Irwedd Griffiths

CLERK: …………………………… Tom Jones

DYDDIAD: 6ed Chwefror 2023